Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau/ Economy, Infrastructure and Skills Committee

Masnachfraint Rheilffyrdd a chyflwyno Metro / Rail Franchise and the Metro

Ymateb gan Llywodraeth Cymru / Evidence from Welsh Government

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – GWASANAETHAU RHEILFFORDD A'R METRO**

1. Pwrpas y papur hwn yw rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar wasanaethau rheilffordd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru.

**Cefndir**

2. Yn 2014 cyhoeddwyd y byddai'r cyfrifoldeb dros fanyleb a chaffael gwasanaeth rheilffordd nesaf Cymru a'r Gororau yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Rydym yn mynd ymlaen â'r broses gaffael hon ar sail y cytundeb hwn.

3. Er mwyn cyflawni ein huchelgais mae'n rhaid i Lywodraeth Prydain fodloni ein disgwyliadau ar y canlynol:

   - Llywodraeth Prydain i drosglwyddo'r pwerau ar amser ac fel a gytunwyd.
   - Llywodraeth Prydain a Network Rail i gytuno ar ein cynlluniau ar gyfer Rheilffordd y Cymoedd, sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd.
   - Yr Adran Drafnidiaeth i gytuno ar drefniadau ariannol addas ar gyfer seilwaith Rheilffordd y Cymoedd.

4. Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Prydain i sicrhau newid yn y ddeddfwriaeth a fyddai'n caniatâu i gyrff y sector cyhoeddus weithredu fel masnachfreintiau, fel yn yr Alban, ond fel a ddigwyddodd gyda cheisiadau eraill, cafodd hyn ei wrthod.

5. Er gwaethaf y ffaith nad yw Llywodraeth Prydain yn datganoli'r ystod llawn o bwerau, rydym wedi datblygu dull o weithio sy'n darparu llawer o'r hyn yr ydym yn anelu at ei wneud, sy'n golygu bod modd gwneud rhagor o ddatblygiadau pan gaiff y pwerau hyn eu datganoli.

6. Mae gwasanaeth rheilffordd dibynadwy o safon sy'n rhan o system drafnidiaeth gyhoeddus integredig ledled Cymru yn ganolog i'n gweledigaeth o system drafnidiaeth ingegredig.

7. Daw yr agenda hon â heriau amlwg, ond hefyd gyfleoedd gwych i ddarparu ein huchelgeisiau ehangach am rwydwaith integredig amlfoddol mwy a gwell sy'n gwasanaethu anghenion teithwyr, cerddwyr a beicwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru.

8. Trwy ail-fuddsoddi arian yn y gwasanaethau sydd eu hangen fwyaf a darparu system drafnidiaeth decach a gwell, gallwn helpu i gefnogi twf economaidd a chreu cymunedau cryfach a Chymru gryfach yn ôl dymuniad pawb.

9. Yn chwarter cyntaf 2016, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus oedd yn anelu at lywio dull Llywodraeth Cymru o gaffael gwasanaethau rheilffordd nesaf Cymru a'r Gororau. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn pwysleisio'r angen i wella profiad y teithwyr a chafwyd eu barn ar ystod eang o feysydd.

10. Y meysydd sy'n cael eu hawgrymu i'w hystyried yw lleihau amseroedd teithio cyffredinol, lleihau costau, gwella capasiti, gwell hygyrchedd, cysylltedd a gwasanaethau mwy prydlon, dibynadwy ac o safon uwch.

**<u>Trafnidiaeth Cymru</u>**

11. Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru (TfW) gennym fel cwmni di-elw yng ngofal cwmni arall i roi cefnogaeth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru ym maes prosiectau trafnidiaeth yng Nghymru. Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar gaffael ac unrhyw drefniadau yn y dyfodol, er bod hyn yn dibynnu ar sicrhau bod swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn cael eu trosglwyddo ar amser.

12. Cynlluniwyd ei strwythur i fod yn hyblyg, gyda'r gallu i addasu adnoddau yn unol ag anghenion y prosiect a gofynion amrywiol, a'i wneud yn haws i Lywodraeth Cymru recriwtio sgiliau o'r farchnad yn gyflymach.

13. Mae Trafnidiaeth Cymru yn rhoi cyngor a barn arbenigol ar hyn o bryd i helpu inni ddatblygu ein gofynion am Weithredwr a Partner Datblygu ar gyfer gwasanaethau rheilffordd a'r Metro, a chawsoch dystiolaeth yn ddiweddar o'r broses gaffael sy'n digwydd ar hyn o bryd.

14. Mae'r broses gaffael yn mynd rhagddi. Mae natur y broses hon yn golygu bod manylion sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau yn cael ei lywio gan gyngor gan Trafnidiaeth Cymru a'r trefniadau sy'n cael eu cynnig gan y cynigydd buddugol.

15. Unwaith y bydd y contract wedi ei drefnu bydd y sefydliad newydd yn gyfrifol am reoli a chydgysylltu gwasanaethau megis marchnata a thocynnau integredig.

16. Mewn amser y bwriad yw sicrhau y pwerau sydd eu hangen i'w alluogi i ysgwyddo ystod ehangach o swyddogaethau trafnidiaeth sy'n debyg o ran natur i'r ffordd y mae Transport for London yn rheoli'r rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus yn Llundain.

17. Byddaf yn gwneud penderfyniadau ar y trefniadau hyn pan fydd yn briodol.

18. Cyn y penderfyniadau hyn, cyhoeddais yn ddiweddar y byddai Pencadlys Trafnidiaeth Cymru, y Gweithredwr a'r Partner Datblygu ym Mhontypridd.

**<u>Caffael Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru</u>**

19. Byddai'n amhriodol inni ddarparu rhagor o fanylion ar y broses gaffael, fodd bynnag cafodd y cynigwyr flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r broses gaffael. Rydym yn disgwyl i gynigion cael eu halinio â'r blaenoriaethau hyn yn amodol ar ffrwyth y trafodaethau yn ystod y broses gystadlu.

**Cyffredinol**

- Dylid sicrhau bod yr holl weithgareddau yn cefnogi polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru.

- Dylid sicrhau aliniad â datganiad polisi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013 yn unol â'i bwerau o dan adran 26(1) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993.

- Dylid sicrhau'r budd mwyaf posibl i economi Cymru a'r Gororau.

- Ni ddylid cynyddu lefel y cymhorthdal presennol ac mae angen darparu achos busnes clir sy'n nodi'r angen am gynnydd os teimlir bod angen hynny.

- Dylai Trafnidiaeth Cymru roi cymhellion priodol i weithredwr a'r gadwyn gyflenwi gysylltiol i ddarparu canlyniadau contract sy'n rhoi gwerth ein harian, a rhoi barn deg am gynigion dielw. Dylai unrhyw gontract gymell ail-fuddsoddi i wella'r rhwydwaith / gwasanaeth.

**Ystyriaethau Rhanddeiliaid / Teithwyr**

- Dylid ystyried pob barn a fynegwyd gan y rhanddeiliaid yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus diweddar Llywodraeth Cymru ar ganlyniadau ansawdd.

- Dylid parhau â'r gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys cynnal o leiaf un ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos arall cyn i unrhyw wahoddiad i dendro gael ei gyhoeddi.

**Cysylltu â gweithwyr**

- Dylid gwneud trefniadau sy'n sicrhau bod cyflogeion yn rhan effeithiol ac adeiladol o'r broses gwneud penderfyniadau.

**Gwella effeithlonrwydd ariannol a gweithredol**

- Dylid gwneud pob ymdrech i gael mwy o'r fasnachfraint newydd fel bod cymhorthdal y Llywodraeth yn rhoi mwy inni am ein harian

- Dylid gwneud trefniadau i sicrhau ansawdd ac adolygu'r contract ar gyfnod(au) priodol

**Meithrin technoleg newydd**

- Dylid annog y defnydd o dechnolegau newydd, pan fyddant yn debygol o wneud gwelliannau i deithwyr, heb leihau lefelau staffio cyffredinol o ganlyniad i hynny.

**Gwasanaethau**

- Dylid darparu'r amrywiaeth gorau posib o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau addas tebyg i Metro yng Ngogledd Cymru a chreu Metro De Cymru.

- Dylid sicrhau:

  - leiaf, bod amlder a chysylltedd y gwasanaethau presennol yn cael eu cynnal, oni bai bod achos clir dros newid.
  - Bod opsiynau yn cael eu hystyried ar gyfer defnydd effeithlon o gapasiti sbâr ar y rhwydwaith ar hyn o bryd, neu a ddaw ar gael yn ystod oes cytundeb y fasnachfraint newydd.
  - Bod cyfleoedd yn cael eu hystyried i gynnwys gwasanaethau newydd yn amodol ar gyfyngiadau seilwaith ac asesiadau achos busnes.
  - Bod y capasiti ar gyfer traffig nwyddau yn cael ei ddiogelu.
  - Bod hyblygrwydd ar gael i gynnwys gwasanaethau ychwanegol yn effeithiol pan fydd capasiti a seilwaith newydd ar gael.

- Metro De Cymru:

  - Dylid sicrhau'r gallu i weithredu o leiaf 4 trên yr awr ar draws Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd gyda threnau amlach i'r de o Bontypridd a Chaerffili.
  - Dylid ceisio lleihau'r amserau teithio ar Reilffyrdd Craidd y Cymoedd 20% o'u cymharu â'r amserlen bresennol.
  - Disgwylir i system Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd gynnal neu addasu gwasanaethau nwyddau yn y dyfodol gan gynnwys cyd-fodoli â dulliau teithio posib eraill.
  - Dylid gweithredu gwasanaethau uniongyrchol rhwng y prif ardaloedd preswyl yn ardal y Metro, gan gynnwys Dinas Caerdydd a'r Bae.
  - Dylid sicrhau'r potensial i ehangu a chreu gorsafoedd ac estyniadau newydd gan gynnwys gwasanaethau ar y stryd.

**Cerbydau**

Rhaid i gerbydau:

- Ddarparu mwy o le i deithwyr a'r twf a ragwelir yn nifer y teithwyr.

- Darparu safonau gwell er mwyn bodloni disgwyliadau cynyddol y teithwyr, gan gynnwys darparu Wi-Fi a mannau gwefru.

- Cynnwys digon o le i storio bagiau a beiciau.

- Cydymffurfio â Rheoliadau'r Fanyleb Dechnegol ar gyfer Rhyngweithredu i Bobl â Symudedd Is.

- Defnyddio Toiledau sy'n Rheoli Allyriadau ar bob cerbyd trên lle darperir toiledau.

- Defnyddio tyniant trydan ar lwybrau trydan newydd y Cymoedd.

**Gorsafoedd**

- Dylid trefnu bod cynllun gweithredu blaenoriaethau yn cael ei ddatblygu cyn i'r fasnachfraint newydd gael ei chreu, i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i orsafoedd, gan gynnwys mewn perthynas â hygyrchedd ac integreiddio dulliau eraill o deithio. Mae angen nodi sut y gellir cyflawni hyn a'i ariannu wrth weithio gyda deiliad y fasnachfraint newydd, Network Rail a Llywodraeth y DU.

**Depos**

- Dylid ystyried y defnydd o ddepos ledled Cymru a'r Gororau gan gynnwys depo Glandŵr.

**Prisiau a Thocynnau**

- Dylid annog mwy o nawdd ar adegau distaw ar wasanaethau lle nad oes llawer o deithwyr.

- Dylid cynnwys gostyngiadau i bobl sy'n gweithio patrymau gwaith afreolaidd neu ran amser.

- Dylid cynnal yr opsiynau presennol ar gyfer prynu tocyn gan ganiatáu ar gyfer tocynnau electronig a thocynnau clyfar yn y dyfodol.

- Dylid gwneud cynnydd sylweddol i integreiddio tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus eraill yn well yn ystod oes y fasnachfraint.

**Rheilffordd Gymunedol**

- Rhaid i'r gweithredwr weithio gyda Phartneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol a hwyluso rhai newydd pan fydd gwerth gwneud hynny.

**Cyd-weithio â darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus eraill**

- Dylid sicrhau bod darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn rhan o'r broses ymgynghori ar gynigion pan fo hynny'n briodol.

**Gwelliannau amgylcheddol**

- Rhaid gwneud trefniadau i wella effeithlonrwydd amgylcheddol ar draws y fasnachfraint.